# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

## DYDD GWENER, 11 TACHWEDD 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M. Gravell (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Harding, Swyddog Datblygu Busnes
C Jones, Cynorthwyydd Rhaglen Adfywio Ffisegol
J Pritchard, Swyddog Adfywio Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 7FED HYDREF 2016.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 7 Hydref, 2016 yn gofnod cywir.**

### 3. CRONFA DATBLYGU ADFYWIO RHYDAMAN.

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad yn cynnwys manylion ynghylch meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer Cronfa Datblygu Adfywio Rhydaman. Nodau ac amcanion y Gronfa oedd galluogi a chymell gwaith adnewyddu tai a phrosiectau adeiladau newydd yn Rhydaman. Byddai'r cynllun yn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn safleoedd ac eiddo heb eu meddiannu drwy ddefnydd uniongyrchol gan Gyngor Sir Caerfyrddin a/neu'r sector preifat.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r meini prawf cymhwyso a'r gweithdrefnau arfaethedig er mwyn sefydlu Cronfa Datblygu Adfywio Rhydaman.**

### 4. CYMORTH ARIANNOL O'R GRONFA GRANT GANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM A CRONFA CYLLID A DARGEDIR.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Capel Ebeneser y Bedyddwyr Cymraeg | £3,000.00 |
| Neuadd y Farchnad – Llanboidy | £3,000.00 |

**4.2 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Llanelli | £12,000.00 |
| Canolfan Gymunedol Ystradowen | £12,654.00 |

**5. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**6. CRONFA MENTER GLWEDIG SIR GAERFYRDDIN.**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 2 uchod, na fyddai yn cynnwys yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gais gan Sauro Architect Design am gymorth gan Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin tuag at y costau o adnewyddu 9 Teras Elliston, Caerfyrddin er mwyn ei ddefnyddio unwaith eto.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd/Eiddo** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Sauro Architects Designs /9 Teras Elliston, Caerfyrddin | £60,000.00 |

____________________________ ________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**